

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CYFARFOD HYDREF 17, 2023

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Hydref 17, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cynghorwyr Gerallt Griffith (Is Gadeirydd), Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Robin Jones, Emlyn Roberts, Barry Jones, Llion Williams. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Yn absenoldeb Meurig Ashton (Cadeirydd), cadeirwyd y cyfarfod gan Gerallt Griffith (Is Gaderydd).

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Karen Goswell, Meurig Ashton (Cadeirydd).

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 19, 2023.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 19, 2023.**

Eitem 6.i. Llythyr (22/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r Gynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi cael ei ganslo. Hwyrach fe fydd yn cael ei gynnal mewn fformat rhithwir ddiwedd Ionawr 2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 11.b. Llythyr ateb (29/9/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ynglŷn â chael pafin o'r Capel i Ysgol Feithrin Seren Fach, Brithdir. Maent yn rhoi gwybod nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer llwybrau troed newydd ac oherwydd cyfyngiadau cyllideb Cyngor Gwynedd nid ydynt yn rhagweld y bydd hyn yn newid i wneud y pafin.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**Penderfynwyd** i Delyth cysylltu â Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i drafod cael 20mya neu 30mya ar y safle.

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys ‘Cylchlythyr Rhif 1 Un Llais Cymru’. Roedd y llythyr yn pwysleisio bod pob cynghorydd yn derbyn y Cylchlythyr sy’n arddangos y gwaith pwysig mae cynghorau cymuned yn ei wneud.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

b. Llythyr (25/9/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd gyda chopi o’r Gorchymyn terfynol cyfyngiad cyflymder 20mya yn ardal Meirionnydd.

Anfonwyd Llythyr (26/9/2023) i’r Gwasanaeth yn rhoi gwybod nid yw Brithdir ar y rhestr sy’n cael ei effeithio gan gyflymder 20mya.

Llythyr ateb (29/9/2023) gan y Gwasanaeth yn rhoi gwybod nid yw Brithdir ar y rhestr gorchymynion gan fod y newidiadau i 20mya yn ddilys drwy rinwedd golau stryd. Amgáu mae map yn dangos Brithdir fel ardal 20mya.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

c. Llythyr (25/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Medi a Hydref, 2023.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

ch. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Huw Antur Edwards, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am Canllawiau a Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Bwyd Cist Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

d. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau (Huw Antur Edwards), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae’n gwneud gwaith sy’n cynorthwyo grwpiau adfywio lleol sydd gyda phrosiectau a gwybodaeth am wahanol gronfeydd ariannol sydd ar gael.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

dd. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Menter Iaith, Cyngor Gwynedd gyda holiadur angen ei gwblhau. Gyda nifer gynyddol o bobl ddi-Gymraeg yn cael eu hethol yn gynghorwyr maent angen gwybod beth rydym yn ei wneud i sicrhau fod y Gymraeg yn cadw ei statws.

Rhodddwyd gwybod iddynt mai Cymraeg yw’r iaith y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CYFARFOD HYDREF 17, 2023

e. Llythyr (27/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd ar Zoom ar Hydref 4, 2023 am 7.00yh. Amgáu mae Agenda a'r siaradwr fydd James Davies a'i dopig fydd Herio cynigion adeiladu tai.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (11/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chyflwyniadau a wnaed yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru :

1. James Davies. Herio cynigion adeiladu tai.
2. Justin Horrell. Arbenigwr ar gysylltiad digidol yn siarad ar gysylltedd a materion cyfarfodydd hybrid gan gynghorau tref a chymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (28/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal i wella gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (11/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am yr ail gam ymgysylltu â gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru bydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref i wella gwasanaeth ambiwlans awyr yng Nghymru. Amgáu mae rhestr o lefydd lle bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (28/9/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn ardal Brithdir a Llanfachreth ar 16 – 20/10/2023).

Penderfynwyd gofyn Priffyrdd, Cyngor Gwynedd pa waith mae Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud yn y gymuned.

i. Llythyr (4/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am ddatliad i goffau 80fed mlynedd 'D-day' bydd yn cymryd lle ar Mehefin 6, 2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (5/10/2023) oddi wrth Mantell Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfarfod 'Gwybodaeth a chynghor am iechyd a llesiant' bydd yn cael ei gynnal yn Glanwnion, Dolgellau ar 12/10/2023 am 10yb-2yp. Mae'r llythyr yn cynnwys manylion ar faterion ychwanegol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CYFARFOD HYDREF 17, 2023

l. Poster (7/11/2023) oddi wrth Swyddfa Blaid Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Cymhorthfa yn Rhydymain ar 10/11/2023.

Anfonwyd y poster i'r aelodau.

ll. Llythyr (16/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

m. Llythyr (17/10/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gronfa nnewydd Grymuso Gwynedd gan Menter Môn sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i endidau wireddu prosiectau er budd cymunedol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

### **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/466. Adeiladu estyniad llawr cyntaf, adeiladu ports blaen, a gosod 3 ffenestr to i ddrychiad blaen y to. Tyn Y Twll, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (5/10/2023).

b. Cais cynllunio NP5/54/94A. Gosod 8 panel solar (360W–380W) ar edrychiad de y to. 5 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (11/10/2023).

### **8. Materion Ariannol**

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2023: £1,156.00.  
Balans yn y banc ar 29/9/2023: £14,616.48 (29/9/2022: £13,255.13).

b. Llythyr (6/10/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Cerdyn (6/10/2023) oddi wrth Pwyllgar Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £700. Amgáu mae copi o Fantolen 2022-2023.

## **9. Archwilio**

a. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod maent wedi cwblhau eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2022 – 2023. Amgáu mae:

1. Ffurflen Blynnyddol. O'r Ffurflen nid oes materion sy'n achosi pryder i'r Archwilydd.

2. Hysbysiad cwblhau archwiliad. Mae angen arddangos yr Hysbysiad am 14 diwrnod a bod Ffurflen Blynnyddol ar gael i'r etholwyr i'w archwilio. Mae angen eu rhoi ar ein gwefan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Rhodddwyd (29/9/2023) y ddwy ddogfen ar ein gwefan a'r hysbysiad ar ein hysbysfyrddau.

Cafodd y Clerc ei ddiolch am y gwaith cafwyd ei wneud i'r Archwilydd Mewnol (Cyngor Gwynedd) ac i'r Archwilydd Allanol (Archwilio Cymru).

## **10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

1. Cwestiwn ar Dai Cymdeithasol sydd yn cael eu tan feddiannu.

Cefais y cyfle i rhoi cwestiwn a ofynnwyd i mi yn Y Ganllwyd ymlaen i'r Cyngor Llawen 28/9/23.

Mae y Cyngor llawen wedi addo arian I sicrhau fod adnoddau addas I gael I'r Cynllun yma.

Mae staff Adran Tai wedi cyd weithredu yn llawn i sicrhau fod adnoddau ar gael.

2. Prynu yn lleol.

Yn dilyn fy nghwestiwn yn y Cyngor yn 2022 mae y pwyslais ar prynu bwyd yn lleol wedi bod yn mynd ymlaen.

Erbyn hyn , mae Gwynedd yn prynu 80% o gig oen a 100% o gig eidion yn lleol ( nid o reidrwydd o Wynedd) a 30% o fara yn dod o ffynonellau lleol.

Mae contractau newydd allan gan y Cyngor rwan sydd yn edrych ar brynu yn lleol fwy- oherwydd fy anogaeth i.

Bydd monitor yn parhâi eleni.

3. Openreach Brithdir – Universal Service Obligation wedi ei dderbyn i 45 o dai yn Brithdir.Dwi di cael cymorth gan Marc Davies o Cwmpas. Mae addewid gan BT(nid Openreach) i wneud y gwaith o greu y rhwydwaith cyn Awst 2024.mae disgwyl y gwaith i gael ei wneud yn gynt.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CYFARFOD HYDREF 17, 2023

4. Toiledau. Cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor Cymunedau 5/10/23  
Gofynnais am ail ystyried y rhai sydd wedi cau yn fy ward a cytunwyd i wneud hyn gan y  
Prif swyddog.

Mae rhai ym meddiant Gwynedd o hyd ond rhai wedi gwerthu.

Mae yn bosib o hyd i Gynghorau Cymuned weithio ar y cyd ar Cyngor Sir i gynnal  
toiledau.

Hoffwn drafod y mater yma yn y Cyngor yn Rhagfyr gyda cyd weithrediad y clerics a  
hefyd aelodau?

5 .Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor.

Mae arian grant i gael gan y Cyngor.

O Chofnodion Medi 19, 2023 Eitem 9.n.: Penderfynwyd nid yw Bioamrywiaeth  
yn berthnasol i'r Cyngor oherwydd nid yw'n berchen neu yn gyfrifol am dir.

6. Defib Brithdir – Mae Paul Williams bron iawn o cael yr arian i gyda ar gyfer un yn  
waelod y pentref.

7. Cyllideb y Cyngor – mae trafodaethau yn cychwyn wythnos yma ar edrych am  
doriadau.

## **11. Materion yr Aelodau**

a. Materion codwyd gan Rhun (9/10/2023).

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi pont ar Ffordd Lefal i groesi tir gwan.  
Mae wedi cael ei osod mewn ffordd sy'n gwneud hi'n anodd i dractor a trailer ei  
ddefnyddio, ac mae'n bosib ni fydd yn addas i injan dân ei ddefnyddio. Roedd y ffordd  
yn iawn cyn i'r bont cael ei osod.

2. Mae'n debygol bydd y bont yn achosi fwy o drafferthion ar Ffordd Lefal  
oherwydd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu rhoi cloeau newydd ar gatiâu y  
ffordd goedwig a bydd dim agoriadau i'w hagar. Wedi gwneud ymoliadau gyda CNC am  
y cloeau, cafodd wybod bod cerbydau argyfwng fel ambiwlans yn cario 'bolt cutters' i  
agor y gatiâu ond mae'r cloeau wedi eu gosod mewn bocs metal sy'n gwneud hi'n  
amhosib i'w hagar gyda 'bolt cutters'.

Mae'n awgrymu i Gyngor Gwynedd ail edrych a'r cynllun y bont.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Mae Delyth yn barod i gyfarfod Rhun ar y safle i drafod y mater.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CYFARFOD HYDREF 17, 2023

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am y mater a threfnu cyfarfod ar y safle gyda swyddogion Priffyrdd.

b. Materion codwyd gan Llion:

1. Pont wrth Tyddyn-du. Hermon. Mae difrod yn cael ei wneud i wyneb y bont (sydd wedi cael ei hadnewyddu yn ddiweddar) gan feiciau modur yn ei chroesi a ddim yn mynd trwy'r afon ar y rhyd.

2. Mae angen gwter newydd i glirio dŵr ar y ffordd rhwng Capel Ffrwd a Tyddyn Llywarch. Mae hyn yn hen gŵyn ac roedd Priffyrdd, Cyngor Gwynedd wedi gaddo gwneud y gwaith.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am y materion a threfnu cyfarfod ar y safle gyda swyddogion Priffyrdd.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru bod ffordd A494 yn rhoi wrth Pont y Ffatri ger mynedfa i Rhydymain / Ysgol Rhydymain.

ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen symud coeden sydd wedi disgyn ar draws yr hen ffordd A494 yn Drws y Nant.

Llofnod:

Dyddiad:

-----